Dull cyfeirnodi APA: canllawiau byr

Ffynhonnell i'w chyfeirnodi	**Yn nhestun y traethawd**	**Yn y rhestr cyfeiriadau**
Llyfr	Awgryma Picton (2014) fod gofal cleifion yn elwa o hanes cefndir effeithlon. Neu Mae gofal cleifion yn elwa o hanes cefndir effeithlon (Picton, 2014).	Picton, S. (2014). *Developing clinical skills in nursing* (2nd ed.). London: Routledge. *Sylwer ar yr atalnodi a ddefnyddir.*
Pennod mewn llyfr wedi'i olygu	Mae Tomos (2013) yn cadarnhau y bydd gallu'r fydwraig i gyfathrebu yn effeithio ar ansawdd y gofal a roddir. *Awdur y bennod a enwir yn unig yn y testun.*	Tomos, W. (2013). The midwife as communicator. Yn A. Picton, G. Huws, & T. Parri (Eds.), *Common midwives' problems* (pp.27-30). Edinburgh: Churchill Livingstone.
Erthyglau mewn cyfnodolion	Wrth fyfyrio ar ei brofiadau, canfu Huws (2012) fod anawsterau moesol yn bodoli wrth ddefnyddio cyfieithwyr ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.	Huws, G. (2012). Reflections on communicating with non-English-speaking patients. *British Journal of Nursing, 11*(11), 773-780. *Sylwer mai enw'r cyfnodolyn sydd mewn llythrennau italig yn hytrach nag enw'r erthygl.* *O ran erthygl mewn e-gyfnodolyn sydd yr un fath â'r fersiwn printiedig, gellir ei gyfeirnodi fel cyfnodolyn printiedig.* *Os nad yw'r un fath, yna dylech gynnwys y DOI (Digital Object Identifier) ar ôl rhifau'r tudalennau,* *e.e.:* doi: 10.1037/A0019769 *Os nad oes DOI ar gael, dylech gynnwys yr URL ar ôl rhifau'r tudalennau,* *e.e.* Cafwyd o http://web.a.ebscohost.com.ezproxy.bangor.ac.uk/ehost/detail/detail?vid=2&sid=7df2693a

Ffynhonnell i'w chyfeirnodi	**Yn nhestun y traethawd**	**Yn y rhestr gyfeiriadau**
Ar gyfer 2 awdur *Nodwch enwau'r ddau. Rhaid i enwau'r ddau awdur ymddangos yn y rhestr gyfeiriadau.* ***3 – 5 awdur****: Cyfeiriad 1af – nodwch enwau'r holl awduron.* *Cyfeiriadau dilynol –* ***Defnyddio 'et al.'*** *Defnyddiwch 'et al.' Rhaid i enw pob awdur ymddangos yn y rhestr cyfeiriadau.* ***6 awdur neu fwy:*** *Defnyddiwch gyfenw'r awdur cyntaf ac et al trwy gydol yr aseiniad. Enwau'r holl awduron yn y rhestr gyfeiriadau.*	(Lewenson & Porter, 2013) neu .....yn ôl Lewenson a Porter (2013). (Davies, Williams, Doris, & Wyn, 2012) Mae cleifion mewn unedau gofal critigol yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r angen i deimlo'n ddiogel a'r angen am wybodaeth nag i anghenion ffisiolegol eraill (Davies et al. 2012). yn ôl Mason et al. (2014), neu ....pwysig (Mason et al., 2014)	Lewenson, S., & Porter, R. (2013). *Clinical decision-making for nurses* (3rd ed.). Basingstoke: Palgrave Macmillan. Davies, R., Williams, R., Doris, P., & Wyn, N. (2012). *Zen and the art of critical care nursing* (8th ed.). Philadelphia: Lippincott, Williams & Wilkins. *Sylwer, defnyddir '&' rhwng yr enw olaf ond un a'r enw olaf yn y rhestr awduron.*
Cyfeiriadau eilaidd – dylech osgoi defnyddio'r rhain. Os oes rhaid i chi eu defnyddio, nodwch fanylion llawn yr eitem a welsoch, ac awdur a dyddiad yr eitem eilaidd.	Mae nifer o resymau pam efallai ei bod hi'n well defnyddio'r rectwm i fesur tymheredd (Jones, 2012 fel y dyfynnwyd yn Tomos, 2014).	Tomos, W. (2014). *The biological basis of nursing: clinical observations.* London: Routledge.
Gwefannau – byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r rhain. Cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn ffynonellau gwybodaeth credadwy (nid oes angen nodi'r dyddiad y gwelsoch y wybodaeth) **Adroddiadau** - Os ydych wedi eu cyrchu ar-lein, dylid eu cyfeirnodi yn yr un ffordd â gwefannau.	Un o egwyddorion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn (Yr Adran Iechyd, 2001) yw y dylai pobl hŷn gael y wybodaeth i'w galluogi i fod yn rhan o'u gofal. *Nodwch yr awdur a'r dyddiad, NID yr URL*	Adran Iechyd. (2001). *The national service framework for older people*. Cafwyd o www.doh.gov.uk/nsf/olderpeople.htm *Os nad oes awdur wedi'i enwi, nodwch enw'r sefydliad fel awdur.* *Os nad oes dyddiad wedi ei nodi, defnyddiwch* (n.d.). *Nid oes angen cynnwys y dyddiad y gwelsoch y wybodaeth. Yr unig eithriad i hyn fyddai pe bai'r wybodaeth ar y dudalen we'n debygol o newid neu gael ei diweddaru.*

Ffynhonnell I'w chyfeirnodi	Yn nhestun y traethawd	Yn y rhestr gyfeiriadau
Defnyddio dyfyniadau uniongyrchol – ceisiwch gyfyngu'ch defnydd o'r rhain. Eich syniadau chi sydd o ddiddordeb i ni, nid darnau hir o eiriau gan awduron eraill.	Awgryma Twrcitena (2012) "the professional mask worn by health professionals can distort their relationships with clients." (p.377) *Rhaid cynnwys rhif y dudalen ar gyfer dyfyniadau uniongyrchol o lyfrau. Rhaid i ddyfyniadau sy'n cynnwys mwy na 40 gair gael eu mewnoli yn y testun.*	Twrcitena, I. (2012). *Social behaviour and professional interactions*. Basingstoke: Palgrave.
Cofnodi'r un awdur, yr un flwyddyn – defnyddiwch hyn os ydych yn dyfynnu dau neu fwy o gyhoeddiadau gan yr un awdur sydd wedi eu cyhoeddi yn yr un flwyddyn, er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt.	Cedwir cyfrinachedd yn unol â chanllawiau y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015a). Gwiriwyd enw'r claf cyn rhoi triniaeth yn unol â chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015b).	Nursing and Midwifery Council. (2015a). *The code: Standards of conduct, performance and ethics for nurses and midwives.* London: NMC. Nursing and Midwifery Council (2015b). *Standards for medicines management*. London: NMC.

PETHAU PWYSIG I'W COFIO

- Rhaid cynnwys manylion llawn pob eitem rydych wedi ei defnyddio ar **restr gyfeiriadau** ar ddiwedd eich aseiniad. Rhaid trefnu'r rhestr **yn nhrefn yr wyddor**, yn ôl cyfenwau'r awduron.
- **Rhaid rhoi teitlau** llyfrau, gwe-dudalennau, adroddiadau a chyfnodolion ***mewn llythrennau italig*** yn y rhestr gyfeiriadau.
- Ar ôl llinell gyntaf pob cyfeiriad, rhaid mewnoli pob llinell sy'n dilyn (trwy leoli'r cyrchwr ar ddechrau'r llinell a gwasgu CTRL a'r fysell Tab ar yr un pryd).
- Wrth ddyfynnu yn eich aseiniad, dim ond cyfenw'r awdur(on) a'r dyddiad cyhoeddi sy'n rhaid i chi eu rhoi. Os ydych yn dyfynnu'n uniongyrchol o waith rhywun arall, rhaid i chi hefyd gynnwys rhif y dudalen.
- Yn eich aseiniad, cysylltwch enw dau awdur gydag **a/ac** pan fyddwch yn dyfynnu y tu allan i gromfachau. Cysylltwch gydag ampersand, h.y. **&,** tu fewn i gromfachau.
- Cofiwch bwysigrwydd **cadw cyfrinachedd** yng nghyd-destun polisïau'r bwrdd iechyd neu bolisïau lleoliadau eraill. Darllenwch ganllaw llawn yr APA (tud. 11) i gael gwybod sut i wneud hyn.

- Rhaid dyfynnu Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn eich aseiniad yn unol â dull penodol yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd. Darllenwch ganllaw llawn yr APA (tud. 11) i gael gwybod sut i wneud hyn.

- **Chwiliwch yng nghanllaw llawn yr APA os nad yw'r ateb i'ch cwestiwn yn y canllaw byr hwn.** https://www.bangor.ac.uk/library/help/documents/APAreferencingguide-cy.pdf